**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

—

**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Lee Waters AS
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd

16 Rhagfyr 2022

**Adolygiad o Deithio gan Ddysgwyr**

Annwyl Lee,

Byddwch yn ymwybodol bod mynediad dysgwyr at deithio yn fater sydd o ddiddordeb sylweddol i ni. Gwnaethom argymhelliad yn ein hadroddiad diweddar ar absenoldebau disgyblion ynghylch pam y mae'n bwysig i benderfyniadau ar deithio gan ddysgwyr gael eu gwneud gan fabwysiadu dull "dysgwr yn gyntaf", ac y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan awdurdodau lleol ddigon o arian i wneud hyn. Gwnaethom alw hefyd am i'r adolygiad presennol fod yn radical wrth chwilio am ddatrysiadau arloesol. Rydym yn edrych ymlaen at ymateb Llywodraeth Cymru ar yr argymhelliad penodol hwn maes o law. Yn y cyfamser, hoffem gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad.

Yn gynharach eleni, gwnaethom ysgrifennu atoch ynglŷn â'r adolygiad o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Wrth ymateb, gwnaethoch gyfeirio at ganfyddiadau'r adolygiad interim dyddiedig Mawrth 2021 ond a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022, a gwnaethoch ddweud y byddai ymgynghoriad ar gam nesaf y gwaith yn cael ei gynnal "yn hwyrach eleni". Dywedodd eich datganiad ysgrifenedig dyddiedig 31 Mawrth 2022 y byddai'r gwaith hwn yn cynnwys "ystyried adolygiad cyflawn o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr".

Rwy'n deall bod swyddogion wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, i benderfynu ar gwmpas y gwaith hwn a'r cylch gorchwyl arfaethedig. A fyddech cystal â rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y gwaith hwn a'r amserlenni disgwyliedig?

Byddem yn gwerthfawrogi ymateb erbyn dydd Mercher 18 Ionawr.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru
Welsh Parliament